

Y Prif Weinidog
copi at y Cwnsler Cyffredinol
copi at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
copi at y Llywydd

7 Rhagfyr 2018

Annwyl Carwyn,

Y Llywodraeth yn ymgysylltu â gwaith craffu ariannol ar Filiau Aelodau

Heddiw mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi adroddiad ar oblygiadau ariannol y Bil Awtistiaeth (Cymru), a gyflwynwyd gan Paul Davies AC. Hoffwn dynnu eich sylw at Gasgliad 4 yn ein hadroddiad:

Casgliad 4. Nid yw'r Pwyllgor yn gallu gwneud penderfyniad ar ddilysrwydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddio hwn. Nid yw'r Aelodau wedi cael unrhyw reswm ariannol sylweddol i'r ddeddfwriaeth beidio â symud yn ei blaen, ond nid ydym wedi gallu pennu a oes unrhyw werth am arian yn y ddeddfwriaeth hon oherwydd diffyg y wybodaeth ariannol.

Mae'r diffyg gwybodaeth ariannol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru am gost gwasanaethau Anhwylder Sbectrwam Awtistiaeth yn golygu nad oedd y Pwyllgor yn gallu craffu'n effeithiol ar y ffigurau a gyflwynwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol. Mae hyn wedi rhwystro'r broses graffu.

Pe bai'r Cynulliad yn pleidleisio o blaid cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 26.91, cred y Pwyllgor fod gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb i ddarparu'r wybodaeth ariannol berthnasol i Aelodau'r Cynulliad sy'n cyflwyno deddfwriaeth cyn cyflwyno Bil, gan mai dyna brif ffynhonnell gwybodaeth o'r fath fel arfer.

O ganlyniad, mae'r Pwyllgor wedi argymhell:



Argymhelliad 1: Yn y dyfodol, pe bai'r Cynulliad yn pleidleisio o blaid y cynnig a gyflwynwyd yn unol â Rheol Sefydlog 26.91, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddarparu i sicrhau bod y costau mewn memorandwm esboniadol mor gynhwysfawr a manwl â phosibl, gan ddefnyddio'r wybodaeth am gost sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

Er bod yr argymhelliad hwn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ar oblygiadau ariannol y Bil Awtistiaeth (Cymru), mae'r argymhelliad ei hun y tu hwnt i gylch gorchwyl Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Felly, rwy'n anfon copi o'r argymhelliad atoch chi a'r Cwnsler Cyffredinol yn uniongyrchol er mwyn ichi ymateb iddo. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael ymateb ffurfiol gan y Llywodraeth i'r argymhelliad hwn.

Yn gywir



Llyr Gruffydd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

